



Gweinyddiaeth
Cyfiawnder

Ministry
of Justice

Cynllun Iaith Gymraeg y Weinyddiaeth Gyfiawnder

Adroddiad Monitro Blynyddol 2019-20
i Gomisiynydd y Gymraeg

Rhagfyr 2020

Protecting and advancing the principles of justice



Cynllun Iaith Gymraeg y Weinyddiaeth Gyfiawnder

Adroddiad Monitro Blynyddol 2019-20 i Gomisiynydd y Gymraeg

Rhagfyr 2020

Cyflwyniad

Mae'r adroddiad hwn yn ymdrin â'r cyfnod rhwng 1 Ebrill 2019 a 31 Mawrth 2020. Hunanasesiad ydyw o sut mae'r Weinyddiaeth Gyfiawnder wedi parhau i gyflawni'r ymrwymadau yn ei Chynllun Iaith Gymraeg 2018 (Cynllun y Weinyddiaeth Gyfiawnder) yn ystod y cyfnod hwn.

Mae'r Cynllun yn amlinellu sut mae'r Weinyddiaeth Gyfiawnder yn gweithredu'r egwyddor yn Adran 5 Deddf yr Iaith Gymraeg 1993, sef y dylid trin y Gymraeg a'r Saesneg yn gyfartal wrth gynnal busnes cyhoeddus a gweinyddu cyfiawnder yng Nghymru. Mae'n galluogi pawb sy'n cael gwasanaeth gan y Weinyddiaeth Gyfiawnder yng Nghymru, neu sy'n cyfathrebu â ni, i wneud hynny drwy gyfrwng y Gymraeg neu'r Saesneg, yn dibynnu ar eu dewis personol.

Mae Cynllun y Weinyddiaeth Gyfiawnder yn gynllun corfforaethol sy'n cwmpasu meysydd datblygu polisi, recriwtio a darparu gwasanaethau i'r cyhoedd ym mhencadlys corfforaethol y Weinyddiaeth Gyfiawnder. Dyma'r ail Adroddiad Monitro Blynyddol ar ail flwyddyn o weithrediad Cynllun 2018 y Weinyddiaeth Gyfiawnder.

Rydym yn cael ein cefnogi gan bum Asiantaeth Weithredol sy'n gyfrifol am ddarparu'r mwyafrif o'n gwasanaethau i'r cyhoedd:¹ Mae gan bob un o'n Hasiantaethau Gweithredol eu Cynlluniau Iaith Gymraeg eu hunain sy'n sicrhau darpariaeth o wasanaethau iaith Gymraeg sydd naill ai'n gyfwerth â darpariaeth y Weinyddiaeth Gyfiawnder neu'n rhagori arni. Gan fod pob Asiantaeth Weithredol hefyd yn adrodd i Gomisiynydd y Gymraeg bob blwyddyn, nid yw'r wybodaeth hon yn cael ei hailadrodd yma oni bai ei bod yn berthnasol i adroddiadau corfforaethol y Weinyddiaeth Gyfiawnder.

Crynodeb o'n cyflawniadau

Dyma rai o'r pethau a gyflawnwyd yn ystod 2019-20:

- Mae ymgynghoriadau allweddol y Weinyddiaeth Gyfiawnder ar gael yn Gymraeg ar Hyb Ymgynghori'r Weinyddiaeth ar ein tudalennau GOV.UK 'corfforaethol' ac ar dudalennau 'cyffredinol' GOV.UK
- Cofrestrodd y Weinyddiaeth Gyfiawnder ar gyfer y rhaglen Cymraeg Gwaith a ariennir gan Lywodraeth Cymru sy'n cynnig cyrsiau Cymraeg i staff.
- Cofnododd GLITEM 717 o achosion yn y flwyddyn adrodd lle defnyddiwyd y Gymraeg.
- Cyhoeddodd y Comisiwn ar Gyfiawnder yng Nghymru ei adroddiad ym mis Hydref 2019 i osod gweledigaeth hirdymor ar gyfer dyfodol cyfiawnder yng Nghymru.
- Cynhaliwyd Wythnos Dysgu Datganoli ym Mhencadlys y Weinyddiaeth Gyfiawnder ym mis Mai 2019 gyda siaradwyr o swyddfa Comisiynydd y Gymraeg.
- Mae tudalen Ianio Gymraeg y Weinyddiaeth Gyfiawnder ar ein gwefan ar gael yma: <https://www.gov.uk/government/organisations/ministry-of-justice.cy>

¹Ein 5 Asiantaeth Weithredol yw: Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd Ei Mawrhydi (GLITEM), Gwasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Mawrhydi, yr Asiantaeth Cymorth Cyfreithiol, Swyddfa'r Gwarcheidwad Cyhoeddus, a'r Awdurdod Digolledu am Anafiadau Troseddol.

- Roedd Gwasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Mawrhydi wedi hysbysebu ei Raglen Grant Arloesi newydd gyda digwyddiad ymgysylltu â rhanddeiliaid yng Nghaerdydd.
- Mae Grŵp Cydlynwyr Iaith Gymraeg ffisegol a rhithiol ehangach y Weinyddiaeth Gyfiawnder sy'n cwrdd ddwywaith y flwyddyn ac yn ymdrin ag ystod lawn o feysydd busnes y Weinyddiaeth wedi parhau â'i waith.
- Mae system e-recriwtio Oleeo (y World Careers Network gynt) wedi hysbysebu 97 o swyddi lle mae'r Gymraeg yn cael ei hamlygu.
- I gefnogi llwyddiant ein Prawf Effaith ar y Gymraeg ar gyfer swyddogion polisi, cyfieithodd Uned Iaith Gymraeg GLITEM 45 o ddogfennau polisi corfforaethol.

Cynnydd wrth gyflawni'r Cynllun Gweithredu

Mae'r wybodaeth ddiweddaraf ynghylch ein cynnydd o ran cyflawni ein camau gweithredu perthnasol parhaus yng nghyswllt y Cynllun Iaith Gymraeg i'w gweld isod er mwyn helpu i ddangos sut rydym yn cydymffurfio.

Adroddiad Monitro Blynyddol 2018-19 y Weinyddiaeth Gyfiawnder

Ni chafwyd sylwadau gan Gomisiynydd y Gymraeg mewn ymateb i Adroddiad Monitro Blynyddol 2018-19.

1. Datblygu a gweithredu polisi

Meini prawf llwyddiant:

- Gwella ymwybyddiaeth staff; gyda gofynion y Cynllun Iaith yn cael eu hystyried yn y broses o gaffael a llunio polisiau.*
- Mae staff polisi, dadansoddi a chyfreithiol yn ystyried goblygiadau o ran yr iaith Gymraeg yn gyson wrth ddatblygu polisiau ac ymgynghori.*

Ymgynghoriadau'r Weinyddiaeth Gyfiawnder

Yn ystod cyfnod adrodd 2019-20, cynhaliodd y Weinyddiaeth Gyfiawnder nifer o ymgynghoriadau yn Gymraeg a chyhoeddi ymatebion yn Gymraeg fel a ganlyn:

Newidiadau arfaethedig i reolau sy'n ymwneud â dirmyg llys: aildrafftio CPR Rhan 81

Cafodd yr ymgynghoriad ei gyfieithu'n llawn (Mawrth 2020) ac mae ar gael ar hyb ymgynghori corfforaethol y Weinyddiaeth Gyfiawnder ac ar safle cyffredinol GOV.UK.

Ymgynghoriad ar Wella'r Cod Dioddefwyr

Cafodd yr ymgynghoriad a'r Cod Dioddefwyr Diwygiedig eu cyfieithu'n llawn (Mawrth 2020) ac maent ar gael ar hyb ymgynghori corfforaethol y Weinyddiaeth Gyfiawnder ac ar safle cyffredinol GOV.UK.

Adolygiad Cymorth Cyfreithiol Troseddol: Pecyn o fesurau carlam i ddiwygio'r cynlluniau ffioedd cymorth cyfreithiol troseddol

Cafodd crynodeb gweithredol o'r ymgynghoriad ei gyfieithu (Chwefror 2020) ac mae ar gael ar hyb ymgynghori corfforaethol y Weinyddiaeth Gyfiawnder ac ar safle cyffredinol GOV.UK.

Cynllun Dyletswydd Llys ar gyfer Meddiannu Tai: Tuag at wasanaeth mwy cynaliadwy

Cafodd yr ymgynghoriad ei gyfieithu'n llawn (Hydref 2019) ac mae ar gael ar hyb ymgynghori corfforaethol y Weinyddiaeth Gyfiawnder ac ar safle cyffredinol GOV.UK.

Asesu'r risg o niwed i blant a rhieni mewn achosion plant cyfraith breifat

Cafodd yr alwad am dystiolaeth ei chyfieithu'n llawn (Gorffennaf 2019) ac mae ar gael ar hyb ymgynghori corfforaethol y Weinyddiaeth Gyfiawnder ac ar safle cyffredinol GOV.UK. Mae

diweddariad cynnydd hefyd ar gael ar hyb ymgynghori corfforaethol y Weinyddiaeth Gyfiawnder ac ar safle cyffredinol GOV.UK.

Diwygio'r gofynion cyfreithiol ar gyfer ysgaru

Cafodd yr ymateb i'r ymgynghoriad ei gyfieithu'n llawn (Mehefin 2019) ac mae ar gael ar hyb ymgynghori corfforaethol y Weinyddiaeth Gyfiawnder ac ar safle cyffredinol GOV.UK.

Cryfhau'r gwasanaeth prawf, meithrin hyder:

Cafodd yr ymateb i'r ymgynghoriad (Mai 2019) ei gyfieithu'n llawn ac mae ar gael ar hyb ymgynghori corfforaethol y Weinyddiaeth Gyfiawnder ac ar safle cyffredinol GOV.UK.

Deddf Gwarcheidiaeth (Unigolion Coll) 2017, rhoi'r Ddeddf ar waith:

Cafodd yr ymateb i'r ymgynghoriad (Ebrill 2019) ei gyfieithu ac mae ar gael ar hyb ymgynghori corfforaethol y Weinyddiaeth Gyfiawnder ac ar safle cyffredinol GOV.UK.

Concordat y Weinyddiaeth Gyfiawnder / Llywodraeth Cymru

Fel y nodwyd yn flaenorol, mae'r Concordat rhwng y Weinyddiaeth Gyfiawnder a Llywodraeth Cymru yn nodi'r cysylltiadau ar lefel gwaith rhwng Llywodraeth Cymru a'r Weinyddiaeth Gyfiawnder. Mae'n ymdrin â threfniadau ar gyfer ymgynghori a chydweithredu rhwng y cyrff, gan gynnwys cyfnewid gwybodaeth (gan gynnwys y telerau ar gyfer rhannu gwybodaeth), effeithiau cyfiawnder, mynediad at wasanaethau, datrys anghydfodau ac adolygu cysylltiadau. Cafodd y Concordat, dyddiedig 25 Mehefin 2018, ei gyhoeddi yn Gymraeg a Saesneg. Mae'n gam pwysig ymlaen ar gyfer gwella arferion gweithio, cysylltiadau rhynglywodraethol, a chanlyniadau cyfiawnder i'r ddwy weinyddiaeth.

Comisiwn ar Gyfiawnder yng Nghymru

Aeth y Comisiwn ar Gyfiawnder yng Nghymru, a sefydlwyd gan Lywodraeth Cymru, ati i adolygu'r system gyfiawnder yng Nghymru yn 2017 a chyhoeddodd ei adroddiad ym mis Hydref 2019 i osod gweledigaeth hirdymor ar gyfer dyfodol cyfiawnder yng Nghymru. Mae'r Adroddiad ar gael yma: <https://llyw.cymru/adroddiad-comisiwn-ar-gyfiawnder-yng-nghymru>

Mae Llywodraeth y DU wedi cytuno i weithio gyda Llywodraeth Cymru i ystyried yn ofalus yr argymhellion sydd â'r potensial i wella'r ffordd yr eir ati i weinyddu cyfiawnder yng Nghymru, er bod Deddf Cymru 2017 yn darparu fframwaith effeithiol ac effeithlon ar gyfer darparu cyfiawnder yng Nghymru.

Y Pwyllgor Ymgynghorol Annibynnol ar Gyfiawnder yng Nghymru

Cyhoeddodd y Pwyllgor Ymgynghorol Annibynnol ar Gyfiawnder yng Nghymru ei adroddiad cyntaf ar ddarparu cyfiawnder yn effeithiol yng Nghymru (a gyhoeddwyd yn Gymraeg a Saesneg) ar 23 Gorffennaf 2019, ac mae ar gael yma: <https://www.gov.uk/government/publications/justice-in-wales-first-report-of-the-independent-advisory-committee-on-justice-in-wales>

Cylch gorchwyl y Pwyllgor oedd:

- adolygu gweithrediad y system gyfiawnder yng Nghymru o bryd i'w gilydd, a hynny'n barhaus;
- gwneud argymhellion sy'n sicrhau bod y system gyfiawnder yng Nghymru yn cadw'n wastad â threfniadau deddfu'r Cynulliad a'r Senedd o fewn yr awdurdodaeth sengl;
- monitro pa mor effeithiol yw'r trefniadau gweinyddol ar gyfiawnder yng Nghymru a gwneud argymhellion i ddarparu gwasanaethau cyfiawnder effeithlon ac effeithiol ar draws y terfyn datganoli, gan adeiladu ar enghreifftiau o arfer da a chydweithredu.

Roedd aelodau'r Pwyllgor yn cynnwys y farnwriaeth, Cymdeithas y Gyfraith, Cyngor y Bar, Gwasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Mawrhydi yng Nghymru, Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd Ei Mawrhydi yng Nghymru, Llywodraeth Cymru, Swyddfa Cymru a'r Weinyddiaeth Gyfiawnder ac mae'n cael ei gadeirio gan uwch swyddog Swyddfa'r Cabinet.

Nid yw'r Pwyllgor wedi cyfarfod ers i'r Comisiwn ar Gyfiawnder yng Nghymru gyhoeddi ei adroddiad, gan y bydd y Weinyddiaeth Gyfiawnder yn gweithio gyda Llywodraeth Cymru i ystyried goblygiadau'r canfyddiadau.

Comisiwn y Gymraeg: Rôl y Gymraeg

Cynhaliwyd Wythnos Dysgu Datganoli ym Mhencadlys y Weinyddiaeth Gyfiawnder ym mis Mai 2019. Yn y digwyddiad hwn, trafododd siaradwyr o swyddfa Comisiynydd y Gymraeg lansiad Cynllun Iaith Gwasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Mawrhydi a'r sefyllfa sydd gan y Gymraeg fel iaith swyddogol. Bydd y Gymraeg yn rhan o sesiynau dysgu datganoli parhaus.

Roedd y Weinyddiaeth Gyfiawnder hefyd yn un o chwe adran gyntaf y llywodraeth i ymrwymo'n gorfforaethol i raglen Cymraeg Gwaith Llywodraeth Cymru sy'n ceisio gwella sgiliau Cymraeg ein staff yng Nghymru. Gan adeiladu ar y ffaith bod GLITEM wedi mabwysiadu Cymraeg Gwaith yn gynnar, rydym yn cydnabod pwysigrwydd integreiddio'r Gymraeg yng ngweithgareddau busnes y Weinyddiaeth Gyfiawnder sy'n effeithio ar Gymru o ran ein swyddogaethau corfforaethol yn ogystal â'r gwasanaethau gweithredol a ddarperir gennym.

2. Recriwtio

Meini prawf llwyddiant:

- Mae system effeithiol ar waith i fonitro'r modd y mae'r Weinyddiaeth Gyfiawnder yn recriwtio staff ac yn penodi'r farnwriaeth er mwyn gwneud yn siŵr bod yr ymrwymadau yn y Cynllun Iaith Gymraeg yn cael eu bodloni.*
- Mae achosion llys yn cael eu cynnal yn Gymraeg pan fydd angen.*
- Mae agwedd gyson at y Gymraeg wrth recriwtio ynadon a barnwyr.*
- Mae system recriwtio newydd yn cydymffurfio â gofynion Comisiynydd y Gymraeg a deddfwriaeth.*

Staff

Meini prawf llwyddiant: a) Mae system effeithiol ar waith i fonitro'r modd y mae'r Weinyddiaeth Gyfiawnder yn recriwtio staff ac yn penodi barnwyr er mwyn gwneud yn siŵr bod yr ymrwymadau yn y Cynllun Iaith Gymraeg yn cael eu bodloni. d) Mae'r system recriwtio newydd yn cydymffurfio â gofynion a deddfwriaeth Comisiynydd y Gymraeg.

Mae'r Weinyddiaeth Gyfiawnder yn defnyddio system e-recriwtio Oleeo. Rydym wedi hysbysebu 97 o swyddi lle cyfeirir at y Cynllun Iaith a lle mae'r gofynion iaith yn nodi bod y Gymraeg yn ddymunol neu'n hanfodol. Rydym wedi penodi 33 o siaradwyr Cymraeg i swyddi lle'r oedd gofyn am y Gymraeg.

Achosion llys

Meini prawf llwyddiant: b) Mae achosion llys yn cael eu cynnal yn effeithiol yn Gymraeg pan fydd angen.

Drwy fynd ati'n effeithiol i ddod o hyd i farnwyr ac ynadon Cymraeg eu hiaith, a'u recriwtio ar ôl hynny, gellir cynnal achosion llys yn Gymraeg pan fydd angen. Yn ystod y flwyddyn adrodd, cofnododd GLITEM 717 o achosion lle defnyddiwyd y Gymraeg. Mae'r cyfanswm wedi'i ddadansoddi fel a ganlyn: Llysoedd y Goron 30, Llysoedd Ynadon 357, Llysoedd Sirol 300, Profiant 6, Tribiwnlysoedd 24.

Roedd 199 o achosion eraill lle'r oedd cyswllt wedi'i wneud yn Gymraeg ond ni chynhaliwyd gwrandawriad traddodiadol (ee achosion diannod troseddol yn unig fel troseddau moduro).

Y farnwriaeth

Meini prawf llwyddiant: c) Mae agwedd gyson at y Gymraeg wrth recriwtio ynadon a barnwyr.

Cafodd 35 o ymarferion dethol eu cwblhau a'u hadrodd yn 2019-20. Bydd y maes busnes a'r farnwriaeth yn gweld beth yw'r gofynion ar gyfer swyddi gwag o safbwynt y Gymraeg, a bydd y Comisiwn Penodiadau Barnwrol yn asesu'r rhain.

Mae'r Comisiwn Penodiadau Barnwrol yn argymhell ymgeiswyr i'r Awdurdod Priodol. Mae'r Swydd Farnwrol yn rheoli'r broses o leoli ymgeiswyr mewn rolau.

Yn 2019-20 roedd yr ymarferion dethol canlynol yn gofyn am asesiadau iaith Gymraeg:

Cofiadur. Lanswyd yr ymarfer hwn ar 19 Mehefin 2018 gyda hyd at 160 swydd wag gan gynnwys dwy swydd lle'r oedd y Gymraeg yn angenrheidiol. Cafodd ymgeiswyr eu profi ar eu dealltwriaeth o weinyddu cyfiawnder yng Nghymru hefyd. Cafodd 19 ymgeisydd eu hargymhell i'w penodi i swyddi yng Nghymru, gan gynnwys un ymgeisydd ar gyfer rôl cyfrwng Cymraeg.

Dirprwy Farnwr Rhanbarth (Llys Ynadon). Lanswyd yr ymarfer hwn ar 20 Medi 2018 gyda 30 swydd wag gan gynnwys dwy swydd yng Nghymru lle'r oedd y Gymraeg yn angenrheidiol. Cafodd ymgeiswyr eu profi ar eu dealltwriaeth o weinyddu cyfiawnder yng Nghymru hefyd. Cafodd pedwar ymgeisydd eu hargymhell ar gyfer swyddi yng Nghymru, gan gynnwys 2 ar gyfer y rolau cyfrwng Cymraeg.

Barnwr Rhanbarth. Cafodd yr ymarfer hwn ei lansio ar 1 Tachwedd 2018 gyda 92 swydd wag ar unwaith, gan gynnwys un swydd cyfrwng Cymraeg, a 18 swydd wag yn y dyfodol. Cafodd ymgeiswyr eu profi ar yr iaith Gymraeg a'u dealltwriaeth o weinyddu cyfiawnder yng Nghymru. Argymhellwyd bod pedwar ymgeisydd yn cael eu penodi ar unwaith i swyddi yng Nghymru, gan gynnwys un ymgeisydd ar gyfer y rôl cyfrwng Cymraeg.

Barnwr Tribiwnlys Haen Gyntaf sy'n Derbyn Ffi a Barnwr y Tribiwnlysoedd Cyflogaeth sy'n Derbyn Ffi (Cymru a Lloegr). Lanswyd yr ymarfer hwn ar 20 Mawrth 2019 ar gyfer hyd at 222 swydd wag gan gynnwys tair swydd lle'r oedd y Gymraeg yn angenrheidiol. Cafodd ymgeiswyr eu profi ar eu dealltwriaeth o weinyddu cyfiawnder yng Nghymru hefyd. Cafodd 10 ymgeisydd eu hargymhell ar gyfer swyddi yng Nghymru, ond yn anffodus ni chafodd unrhyw ymgeisydd a oedd wedi mynegi diddordeb yn y swyddi yng Nghymru eu hargymhell ar gyfer y rolau cyfrwng Cymraeg.

Dirprwy Farnwr Rhanbarth. Lanswyd yr ymarfer hwn ar 20 Mawrth 2019 ar gyfer 200 swydd wag ar unwaith, ac roedd tair swydd yng Nghymru lle'r oedd angen gallu'r Gymraeg. Cafodd pedwar ymgeisydd eu hargymhell ar gyfer y rolau cyfrwng Cymraeg ac 13 ar gyfer swyddi Cymreig, ar sail eu dealltwriaeth o weinyddu cyfiawnder yng Nghymru.

Llywydd Tribiwnlys y Gymraeg. Lanswyd yr ymarfer hwn ar 26 Chwefror 2019 ar ran Llywodraeth Cymru, gydag un swydd wag yn gofyn am y gallu i ddeall, siarad, darllen ac ysgrifennu yn Gymraeg a Saesneg i safon a fyddai'n galluogi'r unigolyn hwnnw i gyflawni busnes y Tribiwnlys yn y ddwy iaith. Cafodd un ymgeisydd ei argymhell i'w benodi.

Nid oedd gofyn am allu'r Gymraeg yn yr ymarferion dethol canlynol, ond cafodd yr ymgeiswyr eu hasesu ar eu dealltwriaeth o weinyddu cyfiawnder yng Nghymru:

Barnwr Cyflogedig Tribiwnlys Haen Gyntaf. Lanswyd yr ymarfer hwn ar 6 Tachwedd 2018 gyda 100 swydd wag i ddechrau, er bod nifer y swyddi gwag wedi cynyddu i 120 yn ddiweddarach, a oedd yn cynnwys pump yng Nghymru. Cafodd yr ymgeiswyr hynny a oedd â diddordeb mewn swydd yng Nghymru eu hasesu ar eu dealltwriaeth o weinyddu cyfiawnder yng Nghymru. Argymhellwyd i'r Swydd Farnwrol yn ddiweddarach bod saith ymgeisydd yn cael eu penodi i rolau cyfrwng Cymraeg.

Barnwr Cylchdaith. Cafodd yr ymarfer hwn ei lansio ar 23 Ionawr 2019 ar gyfer 29 o swyddi gwag ar unwaith, a 21 yn y dyfodol. Cafodd yr ymgeiswyr hynny a oedd â diddordeb mewn swydd yng Nghymru eu hasesu ar eu dealltwriaeth o weinyddu cyfiawnder yng Nghymru. Argymhellwyd bod tri ymgeisydd yn cael eu penodi i rolau cyfrwng Cymraeg.

Barnwr Rhanbarth (Llys Ynadon). Cafodd yr ymarfer hwn ei lansio ar 5 Mawrth 2019 gyda 25 o swyddi gwag. Cafodd yr ymgeiswyr hynny a oedd â diddordeb mewn swydd yng Nghymru eu hasesu ar eu dealltwriaeth o weinyddu cyfiawnder yng Nghymru. Cafodd 17 ymgeisydd eu hargymhell ar gyfer rolau cyfrwng Cymraeg.

Barnwr Rhanbarthol (y Siambr Mewnfudo a Lloches, a'r Siambr Hawliau Cymdeithasol).

Cafodd yr ymarfer hwn ei lansio ar 24 Ebrill 2019 gyda phum swydd wag. Cafodd yr ymgeiswyr hynny a oedd â diddordeb mewn swydd yng Nghymru eu hasesu ar eu dealltwriaeth o weinyddu cyfiawnder yng Nghymru. Cafodd un ymgeisydd ei argymhell ar gyfer rôl cyfrwng Cymraeg.

Barnwr Preswyl (SJC) (Teesside a Chymru). Cafodd yr ymarfer hwn ei lansio ar 25 Gorffennaf 2019 gyda dwy swydd wag, un yng Nghymru ac un yn Teesside. Dim ond ymgeisydd ar gyfer swydd Teesside a argymhellwyd gan nad oedd yr un ymgeisydd wedi gwneud cais am swydd yng Nghymru.

Coleg Barnwrol

Cefnogir Bwrdd y Coleg Barnwrol gan Bwyllgor Hyfforddi Cymru, sy'n cael ei gadeirio gan Farnwr Llywyddol Cymru, Mr Justice Picken. Rhan bwysig o gyloch gwaith y Pwyllgor yw cysylltu â GLITEM Cymru ynghylch darparu hyfforddiant iaith Gymraeg i'r farnwriaeth sy'n eistedd yng Nghymru, a thrwy hynny sicrhau bod y Coleg Barnwrol yn cydymffurfio â gofynion y ddeddfwriaeth sy'n ymwneud â'r Gymraeg. Mae'r Pwyllgor hefyd yn gweithio'n agos â Phwyllgor Cyngor y Barnwyr Cymru sy'n cael ei gadeirio gan yr Arglwydd Brif Ustus. Cynhelir Seminar Iaith Cymru, a ddarperir i helpu siaradwyr Cymraeg y farnwriaeth ar bob lefel, bob dwy flynedd dan nawdd Pwyllgor Hyfforddi Cymru. Cynhaliwyd y seminar diwethaf ym mis Mawrth 2019, a'r bwriad yw cynnal y nesaf yn 2021.

Mae'r Coleg Barnwrol yn cynhyrchu tri e-fwletin bob blwyddyn sy'n asesu cynnydd cyfraith ddatganoledig ac yn darparu gwybodaeth sydd ar gael i holl farnwriaeth Cymru a Lloegr. Mae'r bwletin yn cael ei gynhyrchu yn Gymraeg a Saesneg. Mae'r rhan ar wahân ar gyfer Cymru ar System Rheoli Dysgu digidol y Coleg yn cynnwys opsiynau dwyieithog lle bo hynny'n briodol ac yn ymarferol, ac mae rhywfaint o ddeunydd y llyfrgell bellach ar gael yn Gymraeg. Yn ogystal â hynny, mae'r Coleg Barnwrol wedi cynhyrchu modiwlau e-ddysgu ar gyfathrebu rhyngddwylliannol, sydd hefyd yn ymdrin â rhai materion sy'n ymwneud â'r iaith Gymraeg ac mae ar gael i holl ddeiliaid swydd farnwrol ar unrhyw adeg yn y System Rheoli Dysgu.

Pwyllgorau Ymgynghorol a phenodiadau i'r Ynadaeth

Yn ystod 2019-2020, nododd Pwyllgorau Ymgynghorol yr Arglwydd Ganghellor yng Nghymru fod angen recriwtio ynadon i allu cyfathrebu drwy gyfrwng y Gymraeg ar draws yr holl Ardaloedd Cyfiawnder Lleol yng Nghymru gydag angen penodol yn ardal Dyfed Powys a Gogledd Cymru. Yn yr ardal honno, penododd y Pwyllgor Ymgynghorol 9 ynad sy'n siarad Cymraeg i'r llys oedolion ac am y tro cyntaf drwy recriwtio'n uniongyrchol 1 ynad i'r Llys Teulu. Yng ngweddill Cymru, penodwyd 7 siaradwr Cymraeg arall, gan gynnwys recriwtio un yn uniongyrchol i'r Llys Teulu. Cynhaliwyd pob un o'r cyfweiliadau hynny drwy gyfrwng y Gymraeg. Defnyddir yr offeryn Rhagolygon Barnwrol i ganfod yr angen am ynadon sy'n siarad Cymraeg. Mae hwn yn archwilio nifer yr ymddeoliadau ac ymddiswyddiadau ym mhob ardal, nifer disgwylidig yr eisteddiadau llys ac mae'n ceisio sicrhau bod isafswm canran o'r fainc yn siaradwyr Cymraeg – mae hyn yn amrywio ar draws pob Ardal Cyfiawnder Lleol. Mae'r % wedi aros yn gyson dros y blynyddoedd diwethaf. Cesglir hefyd nifer yr achosion lle siaredir y Gymraeg yn rhannol neu'n llawn yn ystod gwrandawriad llys.

Mae Pwyllgorau Ymgynghorol yr Arglwydd Ganghellor wedi nodi bod recriwtio Ynadon sy'n siarad Cymraeg yng Ngogledd-orllewin Cymru -Ynys Môn/Gwynedd a De-orllewin Cymru - Ceredigion/Sir Gaerfyrddin yn faes sy'n peri pryder. Yn ystod y 2 flynedd diwethaf, bu diffyg ymgeiswyr sy'n siarad Cymraeg o gymharu â nifer y swyddi gwag. Mae hyn wedi'i godi ar lefel ranbarthol drwy Bwyllgor Sefydlog yr Iaith Gymraeg ac yn genedlaethol ac mae ar y gofrestr risg. Rydym wedi bod yn ystyried sut y gallwn dargedu mwy o geisiadau gan siaradwyr Cymraeg drwy dynnu sylw at yr angen a chanolbwytio'r ymgyrchoedd yn yr ardaloedd hynny.

Cyfyngwyr Cofrestredig

Ers yr haf 2018, mae'r Weinyddiaeth Gyfiawnder wedi cwblhau chwe ymgyrch recriwtio ar gyfer Cyfyngwyr Cofrestredig, ac roedd un o'r rheiny yng Nghymru. Mae hyn wedi gwella gallu'r Cynllun

Cyfryngwyr Tystion i ddiwallu anghenion dioddefwyr a thystion cymwys sy'n agored i niwed. Lansiodd ymgyrch recriwtio arall ym mis Ionawr 2020 ar gyfer cyfryngwyr cofrestredig sydd â sgiliau iechyd meddwl yng Nghymru ac mewn pum rhanbarth ar draws Lloegr. Cafodd y cyfweiliadau eu cwblhau ym mis Mawrth a disgwylir i'r hyfforddiant ddechrau yn nes ymlaen yn y flwyddyn, pan fydd y cyfyngiadau sy'n gysylltiedig â Covid-19 wedi cael eu codi.

Er mwyn hybu recriwtio cyfryngwyr cofrestredig sy'n siarad Cymraeg, cyfieithwyd deunyddiau ar gyfer ymgyrch recriwtio mis Ionawr 2020 i'r Gymraeg, a gwnaed paratodau i gyfieithwyr fod yn bresennol mewn cyfweiliadau petai angen. Mae'r Asiantaeth Troseddu Cenedlaethol yn cadw data ar nifer y cyfryngwyr cofrestredig sy'n siarad Cymraeg yn y Cynllun Cyfryngwyr Tystion a'r ardaloedd heddlu y maent yn gweithredu ynddynt. Mae cyfryngwyr cofrestredig sy'n siarad Cymraeg bellach yn gweithredu ym mhob Ardal Heddlu yng Nghymru. Mae yna bedwar cyfryngwr cofrestredig sy'n siarad Cymraeg yn y Cynllun Cyfryngwyr Tystion ar hyn o bryd, a 60 cyfryngwr cofrestredig sy'n ymarfer yng Nghymru.

Ar hyn o bryd, mae ein strategaeth recriwtio yn blaenoriaethu meysydd lle mae ein tystiolaeth yn dangos nad yw ceisiadau am gyfryngwyr cofrestredig yn cael eu cyflawni. Wrth i ni barhau â'r strategaeth hon, byddwn yn sicrhau bod sgiliau Cymraeg yn cael eu cynnwys yn ein hystyriaethau. Mae ein tystiolaeth yn dangos bod ceisiadau am gyfryngwyr cofrestredig ar ran tystion sy'n siarad Cymraeg yn cael eu diwallu. Petai dim modd darparu cyfryngwr cofrestredig sy'n siarad Cymraeg â thyst sy'n siarad Cymraeg, byddai cyfieithydd yn cael ei ddarparu i weithio gyda'r dioddefwr/tyst a'r cyfryngwr cofrestredig. Rhwng 01/04/2019 a 31/03/2020 cafodd yr NCA 518 o geisiadau am gyfryngwyr cofrestredig yng Nghymru, gyda phump o'r rheini heb eu cyflawni ac wyth yn cael eu canslo (nid oedd yr un o'r rhai heb eu cyflawni neu wedi'u canslo yn cynnwys tystion a oedd yn siarad Cymraeg).

Rydym yn ymwybodol o ddi-ddordeb parhaus Comisiynydd y Gymraeg yn y maes pwysig hwn o'n gwaith a byddwn yn adrodd ymhellach ar gyfryngwyr cofrestredig yn yr Adroddiad Monitro Blynyddol nesaf ar gyfer 2020-21.

3. Darparu gwasanaethau i'r cyhoedd

Gohebiaeth

Meini prawf llwyddiant:

- a) Dim cwynion gan gwsmeriaid yng Nghymru ynglŷn â diffyg eglurder o ran ymdrin â gohebiaeth Cymraeg.
- b) Dogfennau'n cael eu cyfieithu i'r Gymraeg yn briodol.
- c) Gohebiaeth Gymraeg yn cael ei hateb yn Gymraeg o fewn yr un amserlenni ag unrhyw ohebiaeth arall

Yn ystod cyfnod adrodd 2019-2020, cafodd Tîm Cymorth a Gohebiaeth Gweinidogol y Weinyddiaeth Gyfiawnder un darn o ohebiaeth yn Gymraeg, drwy ein ffurflen ar y we allanol. Anfonwyd yr e-bost at gydweithwyr yn GLITEM i'w ateb gan ei fod yn ymwneud â'u maes, ac fe wnaethon nhw ei ateb yn brydlon. Mae swyddogion yn parhau i fonitro lefelau'r ohebiaeth Gymraeg a dderbynnir gan y Tîm Cymorth a Gohebiaeth Gweinidogol, ac mae staff wedi cael eu hatgoffa i gadw cofnod o unrhyw ohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg ar y gronfa ddata. Mae hyn yn cynnwys copiâu caled drwy'r post neu ohebiaeth electronig dros e-bost. Mae staff gohebiaeth ar draws yr adran wedi cael eu hatgoffa hefyd bod angen ateb unrhyw ohebiaeth sy'n dod i law yn y Gymraeg yn y Gymraeg.

Galwadau ffôn

Meini prawf llwyddiant:

Bydd galwadau ffôn gan siaradwyr Cymraeg yn cael eu hateb yn Gymraeg yn y cyswllt cyntaf.

Y Tîm Ymholiadau Cyhoeddus (sy'n rhan o ganolfan alw Cydwasanaethau ehangach yn Ne Cymru) sy'n delio â Llinell Ymholiadau Cyhoeddus y Weinyddiaeth Gyfiawnder, ar gyfer galwadau

gan bobl sy'n galw'r Weinyddiaeth Gyfiawnder yn unig. Daw'r galwadau'n bennaf gan bobl sydd am gael eu trosglwyddo i rywun yn y Pencadlys yn 102 Petty France Llundain, fel GLITEM, yr Uned Crwneriaid neu swyddfa'r wasg, er enghraifft. Y cyhoedd neu randdeiliaid allanol, gan gynnwys adrannau eraill y llywodraeth, sy'n gwneud y galwadau hyn fel arfer.

Nid yw'r gweithwyr ffôn ar switsfwrdd y Llinell yn rhoi unrhyw gyngor na gwybodaeth am y Weinyddiaeth Gyfiawnder, dim ond trosglwyddo galwadau i'r person priodol neu roi manylion e-bost ar gyfer blychau post. Rhif Llundain yw rhif y galwadau sy'n cyrraedd tîm y Llinell Ymholiadau Cyhoeddus. Nid yw'r Weinyddiaeth Gyfiawnder yn hysbysebu unrhyw ddewisiadau iaith i'r rheini sy'n galw; fodd bynnag, os bydd rhywun am siarad Cymraeg yn unig, mae'r tîm yn gallu delio â'r cais oherwydd bod gan dîm y ganolfan alw Cydwasanaethau 20 siaradwr Cymraeg rhugl.

Yn ystod cyfnod yr adroddiad hwn, nid oes galwr wedi ceisio cyfathrebu â'r Weinyddiaeth Gyfiawnder yn Gymraeg. Hefyd, yn ystod y cyfnod hwn, nid yw'r Weinyddiaeth Gyfiawnder wedi cael unrhyw gwynion am y ffaith nad oes dewis Cymraeg ffurfiol.

Digwyddiadau

Meini prawf llwyddiant:

Dim cwynion ynghylch methu â hwyluso'r defnydd o Gymraeg neu ddarparu cyfieithiadau Cymraeg mewn digwyddiadau yng Nghymru.

Nid yw'r Weinyddiaeth Gyfiawnder yn cadw cofnodion canolog o ddigwyddiadau a gynhelir ar draws y busnes ynghylch cyfarfodydd yng Nghymru lle'r oedd trefniadau penodol i hwyluso defnydd o'r Gymraeg. Ceir arweiniad ar fewnwyd y Weinyddiaeth Gyfiawnder i helpu staff gyda chyfleusterau ac anghenion cyfieithu ar gyfer cyfarfodydd a digwyddiadau sy'n cynnwys y cyhoedd yng Nghymru.

Hunaniaeth gorfforaethol

Meini prawf llwyddiant:

Cysondeb yn y ffordd y mae'r Gymraeg yn cael ei defnyddio.

Yn ystod cyfnod yr adroddiad hwn, mae Tîm Cyfathrebu Corfforaethol y Weinyddiaeth Gyfiawnder wedi bod yn gweithredu fel arfer o ran gweithgareddau sy'n ymwneud â'r Gymraeg. Mae tîm dylunio canolog y Weinyddiaeth - design102 - yn defnyddio Uned Iaith Gymraeg GLITEM ar gyfer yr holl waith cyfieithu sydd ei angen ar feysydd busnes y Weinyddiaeth. Mae canllawiau brand y Weinyddiaeth Gyfiawnder yn rhoi cyngor ar ddefnyddio fersiynau Cymraeg a dwyieithog logo'r Weinyddiaeth Gyfiawnder.

Cyhoeddiadau a ffurflenni

Meini prawf llwyddiant:

a) Cysondeb yn y ffordd y mae'r Gymraeg yn cael ei defnyddio.

b) Bydd pob dogfen sy'n cael ei llunio yn Gymraeg ac yn Saesneg yn cael ei llunio i'r un safon, gan ddilyn yr un amserlen pan fo'r dyddiadau cau yn caniatáu hynny.

Pan fydd tîm dylunio'r Weinyddiaeth Gyfiawnder, design102, yn llunio dogfen Saesneg sydd angen ei chyfieithu i'r Gymraeg, bydd yn rhoi ffeiliau sy'n cynnwys y gwaith dylunio i Uned Iaith Gymraeg GLITEM er mwyn iddynt allu sicrhau bod fformat y fersiwn Gymraeg a'r Saesneg yr un fath. Gan fod deunyddiau'n aml yn hwyr yn cael eu cymeradwyo, a newidiadau'n cael eu gwneud i'r dogfennau Saesneg munud olaf neu fersiynau newydd yn cael eu cyflwyno, nid yw'n bosibl bob amser creu'r fersiwn Gymraeg a'r fersiwn Saesneg gyda'i gilydd. Serch hynny, bydd y fersiwn Gymraeg yn cael ei chyhoeddi cyn gynted ag y bo modd ar ôl y fersiwn Saesneg (ac yn bendant cyn pen 10 diwrnod gwaith o dan ein Cynllun Iaith). Bydd pob dogfen sy'n cael ei llunio yn Gymraeg ac yn Saesneg yn cael ei llunio i'r un safon.

Ffurflenni a chanllawiau amlosgi

Cafodd y canllawiau amlosgi ar GOV.UK eu diwygio yn Gymraeg a Saesneg ym mis Ebrill 2020 i adlewyrchu'r newidiadau dros dro i Reoliadau Amlosgi (Cymru a Lloegr) 2008 y darparwyd ar eu cyfer yn Neddf Coronafeirws 2020 a ddaeth i rym ar 26 Mawrth 2020.

Ceir darpariaeth yn y Rheoliadau i drin fersiynau dwyieithog (neu Gymraeg) o'r ffurflenni hyn a gyhoeddir gan yr Ysgrifennydd Gwladol yn yr un ffordd â fersiynau Saesneg o'r ffurflenni. Mae'r ffurflenni amlosgi naill ai'n geisiadau am amlosgiad, neu'n ddogfennau i gefnogi hynny, a byddant yn cael eu derbyn gan Awdurdodau Amlosgi.

Uned Iaith Gymraeg GLITEM

Uned Iaith Gymraeg GLITEM sy'n gwneud y rhan fwyaf o'n cyfieithiadau corfforaethol. Rhwng 1 Ebrill 2019 a 31 Mawrth 2020 cyfieithodd yr Uned a Cymen 45 o ddogfennau corfforaethol ar gyfer Pencadlys y Weinyddiaeth Gyfiawnder am gost o £19,253.

Datganiadau i'r wasg, ymgyrchoedd cyhoeddusurwydd a hysbysebu, hysbysiadau swyddogol a chyhoeddus

Meini prawf llwyddiant:

Cysondeb yn y ffordd y mae'r Gymraeg yn cael ei defnyddio.

Rydym wedi cyhoeddi un datganiad i'r wasg ar y cyd â Swyddfa'r Gwarcheidwad Cyhoeddus yn Gymraeg yn ymwneud â lansio cynllun ad-dalu ffioedd dirprwyaethau ym mis Hydref 2019. Mae ad-daliadau Swyddfa'r Gwarcheidwad Cyhoeddus ar gyfer asesiadau dirprwyo cymwys a sesiynau goruchwyllo blynyddol a gynhaliwyd rhwng 1 Ebrill 2008 a 31 Mawrth 2015. Mae'r dudalen ar gael yn Gymraeg yma: <https://www.gov.uk/government/news/deputyship-fee-refunds-scheme-launched.cy>

Tynnwyd sylw at ddechrau'r flwyddyn gyfreithiol yng Nghymru gan yr Arglwydd Ganghellor (Hydref 2019) gyda neges yn Gymraeg ar gyfrif Twitter y Weinyddiaeth Gyfiawnder. <https://twitter.com/MoJGovUK/status/1183399367279034368>

Gwasanaethau digidol, gwefan a gwybodaeth

Meini prawf llwyddiant:

- a) *Llai o gwynion yn ymwneud â diffyg deunydd Cymraeg ar gyfer dogfennau corfforaethol perthnasol.*
- b) *Argaeledd deunydd Cymraeg priodol ar gyfer ein polisiau a chyhoeddiadau.*
- c) *Bod systemau TG y Weinyddiaeth Gyfiawnder yn cynnwys galluedd Cymraeg.*
- d) *Paratoi fersiwn Gymraeg o'n tudalen hafan ar GOV.UK.*

Mae'r Weinyddiaeth Gyfiawnder yn gyfrifol am benderfynu pa gynnwys 'adrannol a pholisi' sydd angen ei gyfieithu ar GOV.UK; trefnu cyfieithu o ansawdd uchel; a sicrhau bod y cynnwys Cymraeg yn gywir ac yn gyfoes.

Cyflwynwyd tudalen Ianio Gymraeg y Weinyddiaeth Gyfiawnder ar ein gwefan yn 2018, ac mae ar gael yma: <https://www.gov.uk/government/organisations/ministry-of-justice.cy>

Mae ein hafan Gymraeg ar GOV.UK gyda'n tudalennau 'corfforaethol' cysylltiedig, sydd hefyd wedi cael eu cyfieithu i'r Gymraeg. Mae'r rhain ar gael drwy ddolen 'Cymraeg' ar ochr dde uchaf yr hafan. Bydd Adran Gyfathrebu'r Weinyddiaeth Gyfiawnder yn sicrhau bod pob diweddariad i'r tudalennau hyn yn cael ei wneud yn Gymraeg hefyd. Byddwn hefyd yn parhau i ddarparu dolenni i gynnwys Cymraeg GOV.UK (pan fydd ar gael) o'r hafan Gymraeg.

Rydym wedi cyflwyno brandio Cymraeg newydd ar ddeunydd ysgrifennu, adroddiadau, logos a gohebiaeth electronig yn effeithiol o ran anghenion a galw defnyddwyr.

Dyma safbwynt Gwasanaeth Technoleg y Weinyddiaeth Gyfiawnder ar dechnoleg iaith Gymraeg:

- wrth inni ddatblygu a chyflwyno cynnyrch a systemau TG newydd neu ddiweddarau hen rai, byddwn yn asesu'r gofynion ieithyddol yng nghyswllt gwasanaethau a ddarperir i'r cyhoedd yng Nghymru;
- byddwn yn hyrwyddo a hwyluso defnydd o'r Gymraeg cyn belled ag y bo'n briodol i'r amgylchiadau ac yn rhesymol ymarferol;
- pan fyddwn yn datblygu neu'n caffael systemau Gwasanaeth Technoleg y Weinyddiaeth Gyfiawnder, byddwn yn ystyried Canllawiau a Safonau Comisiynydd y Gymraeg ar Feddalwedd Dwyieithog;
- y maes busnes perthnasol sy'n gyfrifol am gynnwys llwyfannau TG (yn hytrach na'r dechnoleg gysylltiedig).

Mae'r egwyddorion hyn yn berthnasol pryd bynnag y bydd yn symud at gontractau newydd. Mae Gwasanaeth Digidol a Thechnoleg y Weinyddiaeth bob amser yn barod i ystyried unrhyw ofynion penodol sydd gan yr Uned Iaith Gymraeg.

Gwasanaethau a ddarperir ar ran y Weinyddiaeth Gyfiawnder gan bartïon eraill

Meini prawf llwyddiant:

Bod staff yn ymwybodol o'r trefniadau i gynnwys ystyriaeth o'r Gymraeg mewn cytundebau contract â thrydydd partiïon.

Mae telerau ac amodau contract safonol cyfredol y Weinyddiaeth Gyfiawnder yn cynnwys cymalau sy'n mynnu bod cyflenwyr yn cydymffurfio â Deddf yr Iaith Gymraeg 1993 a'r Cynllun Iaith Gymraeg 'yn union fel petai ef ei hun yw'r Awdurdod'.

Contract Gwasanaethau Cyfieithu a Chyfieithu ar y Pryd:

Mae'r contractau gwasanaethau iaith yn parhau i ddarparu ar gyfer cyfieithu a chyfieithu ar y pryd yn Gymraeg yn yr un modd ag y darperir ar gyfer pob iaith arall. Cafodd y Gymraeg ei chynnwys yn y fanyleb ar gyfer pob un o'r contractau fel un o'r ieithoedd y mae'n ofynnol i'r cyflenwyr ddarparu gweithwyr iaith proffesiynol ar eu cyfer. Bu cydweithio agos rhwng y tîm contractau, y tîm iaith Gymraeg corfforaethol a'r Uned Iaith Gymraeg er mwyn sicrhau bod manyleb contract ieithoedd newydd y Weinyddiaeth Gyfiawnder (ar gyfer 2021) yn cynnwys llinellau a manylion priodol ar yr iaith Gymraeg / Cynllun Iaith Gymraeg.

Yn ystod 2019-20, cafodd y Weinyddiaeth Gyfiawnder gyfanswm o 210 o archebion Cymraeg drwy ein contractau ar gyfer cyfieithu wyneb yn wyneb, dros y ffôn a fideo (Lot 1) ac ar gyfer cyfieithu ysgrifenedig a thrawsgrifio (Lot 2). Mae ystadegau ynglŷn â'r defnydd o wasanaethau cyfieithu a chyfieithu ar y pryd mewn llysoedd a thribiwnlysoedd yn rhan o Ystadegau chwarterol y Llysoedd Troseddol sydd ar gael ar wefan GOV.UK yma:

<https://www.gov.uk/government/statistics/criminal-court-statistics-quarterly-january-to-march-2020>

Contract Llinell Dalu Genedlaethol:

Fel y nodwyd yn flaenorol, dyfarnwyd y contract hwn ym mis Rhagfyr 2017 ac mae'n parhau. Disgwylir iddo ddod i ben ym mis Rhagfyr 2020. Bydd contract dyfarnu uniongyrchol newydd yn cael ei weithredu drwy ddefnyddio fframwaith Gwasanaethau Masnachol y Goron. Mae'r gofynion gwasanaeth yn cynnwys darparu llinell ffôn benodol yn Gymraeg ac yn Saesneg, gydag asiantau sy'n siarad Cymraeg a Saesneg. Mae'r gwasanaeth talu awtomataidd hefyd ar gael yn Gymraeg a Saesneg.

Mae **Contractau Ffôn Arbenigol Cyngor Cyfreithiol Sifil mewn Addysg (Medi 2019)** wedi diwygio'r Contract Cyngor Cyfreithiol Sifil 2018 yr adroddwyd amdano'n flaenorol.

Contract Cyngor Cyfreithiol Sifil (a gyhoeddwyd ym mis Medi 2018):

Mae hyn yn rheoli'r ddarpariaeth o wasanaethau cymorth cyfreithiol o bell yn y categorïau teulu, dyled a thai, gwahaniaethu ac addysg. Mae'n cynnwys y cymal canlynol: "*Rhaid i chi gydymffurfio*

â'r holl deddfwriaeth berthnasol (gan gynnwys pob Deddfwriaeth Cymorth Cyfreithiol). Pan fyddwch yn darparu Gwaith Contract i Gleientiaid sy'n dewis trin eu materion yn Gymraeg, dylech sicrhau ei bod ar gael, ac yn ddealladwy i Gleientiaid o'r fath yn unol â Deddf yr Iaith Gymraeg 1993".

Contractau Asiantaethau Gorfodi Cymeradwy (Tachwedd 2019)

Mae'r Gwasanaethau'n cefnogi camau gorfodi a chydymffurfio GLITEM sy'n sicrhau bod cosbau ariannol yn cael eu casglu a'u cyflawni, yn ogystal â nifer o gosbau carchar a digarchar eraill. Mae rhwymedigaethau contract y Cynllun Iaith Gymraeg yn cynnwys:

- Bydd y Darparwr Gwasanaeth yn cadw at bob Cyfraith berthnasol ac mae Cynllun Iaith Gymraeg yr Awdurdod yn datgan y bydd, wrth gynnal busnes cyhoeddus a gweinyddu cyfiawnder yng Nghymru, yn trin yr iaith Gymraeg a'r iaith Saesneg yn gydradd;
- Ar gyfer gwasanaethau sy'n cael eu darparu yng Nghymru, bydd y Darparwr Gwasanaeth yn sicrhau bod nifer y gweithwyr sy'n siarad Cymraeg yn adlewyrchu proffil iaith Cymru, ac os yw'n llai na hynny bydd y cwmni yn darparu gwersi Cymraeg dwys er mwyn sicrhau ei fod yn cwrdd â'r galw o fewn pedair blynedd;
- Bydd y Darparwr Gwasanaeth yn sicrhau bod yr holl ddogfennau, gan gynnwys cardiau busnes a anfonir at y Diffynnydd yng Nghymru, yn ddwyieithog. Bydd unrhyw Ddiffynnydd sy'n dymuno gohebu â'r Darparwr Gwasanaeth, naill ai wyneb yn wyneb, yn ddigidol neu dros y ffôn, yn gallu gwneud hynny yn yr iaith o'i ddewis.

Fframwaith Darparu Adnoddau Cyfreithiol Ar-lein y Weinyddiaeth Gyfiawnder (Awst 2019)

Mae darpariaeth yn y contractau cyhoeddi mewn print ar gyfer cyflenwi cyhoeddiadau cyfreithiol mewn print, gan gynnwys llyfrau, tanysgrifiadau i gylchgronau ac e-Lyfrau i'w defnyddio gan y Farnwriaeth a chynghorwyr cyfreithiol. Mae'r contractau Adnoddau Cyfreithiol Ar-lein yn darparu ar gyfer cyflenwi trwyddedau i gael mynediad at e-Lyfrgell helaeth o gronfeydd data ar-lein sy'n cynnwys gwybodaeth gyfreithiol, cyfraith achosion a thrawsgrifiadau, deddfwriaeth, gwर्सlyfrau, rheolau gweithdrefnau a gwasanaethau ymwybyddiaeth gyfredol.

Mae'r Cytundebau Fframwaith yn cynnwys gofyniad i'r cyflenwr gydymffurfio â Deddf yr Iaith Gymraeg a'r Cynllun Iaith Gymraeg yn union fel petai ef ei hun yw'r Awdurdod, i'r graddau fod yr un pethau'n berthnasol wrth ddarparu'r Nwyddau. Mae'r un cymal yn y Telerau yn ôl y Gofyn a gynhwysir ym mhob Contract yn ôl y Gofyn.

Mae'r Fframwaith ar gael yma:

<https://www.government-online.net/ministry-of-justice-online-legal-resources-framework/>

Dyrannu grantiau

Meini prawf llwyddiant:

Caiff grantiau eu dyrannu yn unol â'r ymrwymadau a wnaed yn y Cynllun

Disgwylir i unrhyw sefydliad sy'n ymgeisio am grant ar gyfer gweithgareddau sy'n cynnwys cyflenwi gwasanaethau i bobl yng Nghymru ymdrin yn eu ceisiadau, lle bo hynny'n briodol, â sut y bwriadant ddarparu'r gwasanaethau hynny yn y Gymraeg yn ogystal ag yn Saesneg. Yna bydd hyn yn cael ei gynnwys fel un o'r amodau cyllido.

Er mwyn sicrhau bod gennym drefniadau llywodraethu cadarn a bod gwariant grant yn sicrhau gwerth am arian, sefydlodd y Weinyddiaeth Gyfiawnder swyddogaeth her (y Panel Herio Grantiau) ym mis Hydref 2017. Mae'r Panel, sy'n cynnwys cynrychiolaeth o Ganolfan Ragoriaeth Grantiau Swyddfa'r Cabinet yn cefnogi'r broses o wneud penderfyniadau ynghylch sefydlu grantiau newydd ac adolygu'r grantiau sy'n bodoli eisoes.

Mae Gwasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Mawrhydi/ Bwrdd Grantiau Tystion a Dioddefwyr yn goruchwyllo'r prosesau ar gyfer dyrannu grantiau yn eu hardaloedd, gan gynnwys y swm cyffredinol sydd ar gael a sicrhau bod y grantiau'n cyd-fynd â blaenoriaethau strategol yr adran. Mae'r cystadlaethau'n cael eu cynnal drwy System E-dendro 'Jaggaer', sydd ar gael i unrhyw gyflenwr sydd wedi cofrestru. Cafodd cystadlaethau eu hysbysebu gyda Clinks hefyd.

Er mwyn helpu i roi gwybod i ddarpar gynigwyr, bydd y ddogfen ddisgrifio sy'n cyd-fynd â phob hysbyseb yn nodi a fydd ystyriaethau Deddf yr Iaith Gymraeg yn berthnasol, a phryd. Pan gaiff ddyfarniad, ac os yw'n briodol, bydd derbynnydd y grant yn cael gwybod am ofynion y Weinyddiaeth Gyfiawnder y disgwylir iddo gydymffurfio â hwy, gan gynnwys pan fydd Cynllun Iaith Gymraeg perthnasol y Weinyddiaeth Gyfiawnder neu Wasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Mawrhydi yn rhoi gofynion perthnasol Deddf yr Iaith Gymraeg ar waith.

Ar gyfer 2019-2020, cafodd cyllideb grantiau Gwasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Mawrhydi o £4.9m ei defnyddio i gefnogi parhad grantiau strategol, gyda £1.4m yn cael ei ddefnyddio ar gyfer Grantiau Arloesi sy'n cyfrannu at nodau eang a blaenoriaethau penodol y Gwasanaeth. Mae'r rhaglen grantiau yn cael ei hysbysebu i bob corff yn y Sector Gwirfoddol, Cymunedol a Mentrau Cymdeithasol - sef cyrff yn y Trydydd Sector - yng Nghymru a Lloegr.

Dyfarwyd cyllid i nifer o fudiadau gwirfoddol, cymunedol a mentrau cymdeithasol i gefnogi nodau strategol, profi syniadau newydd ac arloesol, a datblygu capasiti mewn sefydliadau sydd â phrosiectau gan gynnwys:

- Gwasanaeth Radio'r Carchar (Prison Radio), ffynhonnell wybodaeth allweddol i droseddwyr ynghylch materion sy'n effeithio arnynt;
- Ymddiriedolaeth Koestler, sy'n annog gweithgarwch artistig ac yn codi ymwybyddiaeth yn fwy cyffredinol am gelf troseddwyr;
- Cymdeithas Genedlaethol Ymwelwyr Carchar Swyddogol, sy'n cefnogi ymwelwyr â charchardai i ddarparu gwasanaeth hanfodol i droseddwyr sydd heb gefnogaeth allanol;
- Carcharorion Dramor (Prisoners Abroad), sefydliad sy'n rhoi help llaw â'r broses o ailsefydlu troseddwyr sy'n dychwelyd i'r DU ar ôl cael dedfrydau dramor;
- Y Samariaid, sy'n darparu cymorth allweddol i garcharorion sydd eisiau lladd eu hunain ac sydd mewn perygl o niweidio eu hunain, ac sy'n cefnogi gwaith carchar mwy diogel mewn carchardai; a
- Cyngor ar Bopeth, sy'n darparu cyngor a chymorth i ddioddefwyr camweinyddiad cyfiawnder.

Roedd Gwasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Mawrhydi wedi hysbysebu ei Raglen Grant Arloesi newydd ar gyfer 2020-22 ym mis Hydref 2019, gyda'r cyfle'n agored i bob mudiad gwirfoddol, cymunedol a mentrau cymdeithasol yng Nghymru a Lloegr. Cynhaliwyd tri digwyddiad ymgysylltu â rhanddeiliaid, gan gynnwys un yng Nghaerdydd. Dyma'r tro cyntaf i Wasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Mawrhydi gynnal digwyddiad o'r fath yng Nghymru. Mae'r rhaglen wedi nodi 16 prosiect newydd, a oedd fod i ddechrau ar 1 Ebrill 2020, ond sydd wedi cael eu gohirio oherwydd sefyllfa Covid-19. O'r 16 dyfarniad, nid oes yr un prosiect sy'n gweithredu'n benodol mewn lleoliadau Gwasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Mawrhydi yng Nghymru, er bydd y rhai sy'n derbyn grantiau wedi cael gwybod am ofynion y Cynllun Iaith Gymraeg lle bo hynny'n briodol.

Mae cyllid grant hefyd yn parhau i fod ar gael i nifer o fudiadau gwirfoddol, cymunedol a mentrau cymdeithasol ar sail tymor hwy i gefnogi'r nodau strategol ac i ddatblygu capasiti ar draws y sector. Bydd y gweithgarwch hwn a ariennir gan grantiau yn berthnasol i Gymru a Lloegr a, lle bo hynny'n rhesymol bosibl, bydd y rhai sy'n derbyn grantiau yn ceisio darparu gwasanaethau drwy gyfrwng y Gymraeg os bydd angen. Mae yna hefyd siaradwr Cymraeg rhugl (ail iaith) o fewn Tîm Grantiau Gwasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Mawrhydi yn y Pencadlys.

4. Gweithredu, monitro ac adrodd

Meini prawf llwyddiant:

- a) *Polisiau, mentrau a gwasanaethau i fod yn gyson â'r ymrwymïadau a wnaed yn y Cynllun Iaith Gymraeg*
- b) *Grŵp Cydlynwyr y Gymraeg y Weinyddiaeth Gyfiawnder wedi'i ehangu ac yn cyfarfod bob dwy flynedd o leiaf, gyda'r aelodau'n rhith-ryngweithio.*
- c) *Trefniadau mewn lle i fonitro ac adrodd ar gynnydd cyrff y Weinyddiaeth Gyfiawnder, a restrir yn Atodiad A, o ran gweithredu Cynllun Iaith Gymraeg y Weinyddiaeth Gyfiawnder.*
- d) *Mae gan staff drefniadau mewn lle i fonitro p'un a yw darparwyr gwasanaethau'n cydymffurfio â threfniadau Cymraeg sydd wedi'u cynnwys mewn cytundebau contractau.*

Roedd Cydlynnydd Cynllun Iaith Gymraeg y Weinyddiaeth Gyfiawnder yn dal yn gyfrifol am ddatblygu a gweithredu'r Cynllun. Un elfen hollbwysig o'r rôl yw sicrhau bod y Cynllun yn cael ei ddatblygu a'i roi ar waith yn briodol ar draws amrywiol feysydd busnes corfforaethol y Weinyddiaeth. Mae hynny'n cynnwys rhoi cyngor a chyfarwyddyd ac ymateb i geisiadau am wybodaeth neu roi eglurhad ynghylch polisi ac arferion y Weinyddiaeth mewn perthynas â'r Gymraeg. Ni chafodd Cydlynnydd y Cynllun unrhyw gwynion ffurfiol ynghylch y modd y gweithredwyd Cynllun y Weinyddiaeth Gyfiawnder yn 2019-20.

Mae'r Weinyddiaeth Gyfiawnder yn parhau i weithredu Grŵp Cydlynwyr Iaith Gymraeg ehangach o gysylltiadau sy'n gweithredu fel Cydlynwyr yr Iaith Gymraeg ar gyfer ein holl feysydd busnes. Mae'r Grŵp yn cyfarfod wyneb yn wyneb neu'n rhithiol, neu gymysgedd o'r ddau, ddwywaith y flwyddyn.

Mae cylch gwaith y grŵp yn cynnwys y canlynol:

- Canolbwyntio ar faterion sy'n gysylltiedig â chyflwyno ein Cynllun Iaith Gymraeg;
- Rhannu enghreifftiau o arferion gorau i helpu i godi ymwybyddiaeth a rhannu syniadau;
- Darparu fforwm i aelodau allu trafod a datrys materion sy'n dod i'r amlwg mewn perthynas â'r Gymraeg;
- Rhoi cydgefnoogaeth i Gydlynwyr Iaith Gymraeg y Weinyddiaeth Gyfiawnder a helpu i lywio cyfeiriad y polisi iaith Gymraeg a dulliau llywodraethu yn y dyfodol ar draws ein Hasiantaethau Gweithredol.

Mae'r aelodau'n defnyddio'r grŵp i rannu gwybodaeth a syniadau er mwyn gwella'r broses o wneud penderfyniadau. Os oes pryderon neu gamddealltwriaeth ynghylch polisi ac ymarfer yr iaith Gymraeg, bydd y Cydlynwyr yn mynd ar ôl y rhain ar gyfer aelodau a staff perthnasol mewn modd cymesur er mwyn sicrhau datrysiaid boddhaol.

Yn ystod y cyfarfod ym mis Ionawr 2020, gwnaethom drafod Adroddiad y Comisiwn ar Gyfiawnder yng Nghymru, recriwtio Cyfryngwyr Cofrestredig, a contract cyfieithu Cymraeg y Weinyddiaeth Gyfiawnder. Aethpwyd i'r afael â phob un o'r pwyntiau gweithredu o'r cyfarfod.

Rydym wedi cael nifer o ychwanegiadau newydd a newidiadau yn gyson i'r grŵp yn ein cyfarfodydd, sy'n dangos bod cynnydd graddol yn parhau yn y diddordeb mewn materion Cymraeg ar draws y Weinyddiaeth Gyfiawnder. Yn unol ag arferion gorau'r Weinyddiaeth Gyfiawnder mewn cyfarfodydd, mae llawer o gynrychiolwyr bellach yn galw heibio i gymryd rhan.

Rhwng cyfarfodydd, mae gan y Grŵp fforwm drafod rithiol *ad hoc* ar faterion sy'n ymwneud â'r Gymraeg, lle gellir rhannu cyngor rhwng cydweithwyr perthnasol y Weinyddiaeth, yn enwedig ynghylch pryd y bydd angen gwasanaethau cyfieithu o bosibl.

Mae'r Weinyddiaeth Gyfiawnder hefyd yn cyflwyno adroddiad blynyddol i Gomisiynydd y Gymraeg ar gynnydd o ran cyflawni ein hymrwymiaadau mewn perthynas â'r Cynllun Iaith.

OGL

© Hawlfraint y Goron 2020

Mae'r cyhoeddiad hwn wedi'i drwyddedu o dan delerau Trwydded Llywodraeth Agored f3.0 ac eithrio lle nodwyd fel arall. I weld y drwydded hon, ewch i nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/version/3. Os ydym wedi nodi bod unrhyw wybodaeth dan hawlfraint trydydd parti, bydd angen i chi gael caniatâd gan ddeiliaid yr hawlfraint berthnasol.

Mae'r adroddiad hwn ar gael mewn fformatau eraill ar gais gan y Gwasanaethau Dadansoddi drwy gysylltu â MOJWLSrevision@justice.gsi.gov.uk